Asiantaeth Gwasanaethau
Cerbydau a Gweithredwyr

Cofrestru Gwasanaethau Bws Lleol

Canllaw i Weithredwyr

Mae'r canllaw hwn a'r ffurflenni cais i gofrestru gwasanaethau bws lleol a'r holl ganllawiau cofrestru a ffurflenni eraill i weithredwyr ar gael ar wefan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr [VOSA]. Mae'r safle hefyd yn cynnig cymorth a gwybodaeth i weithredwyr trafnidiaeth, awdurdodau lleol, sefydliadau partner, cwmnïau hurio a'r cyhoedd. Gallwch hefyd weld pob cais i gofrestru gwasanaethau newydd, i ddiwygio neu ganslo gwasanaethau, a dderbyniwyd gan Gomisiynwyr Traffig trwy ddefnyddio'r cyfleuster chwilio cofrestriadau bysiau ar y wefan. I wneud hyn, ewch i www.businesslink.gov.uk a chliciwch ar wasanaethau ar-lein.

Mae “Notices and Proceedings” sy'n cynnwys manylion am bob cais am drwydded Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus a chofrestriadau bws hefyd ar gael ar y wefan.

Mae cyngor pellach ar gofrestru gwasanaethau bws lleol ar gael trwy ffonio Rhif Ffôn Cenedlaethol VOSA ar 0300 123 9000

PSV 353A

Mai 2009

Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol: Rhan 1

Y SYSTEM GOFRESTRU

CYFLWYNIAD

Dylai unrhyw un sydd am redeg gwasanaeth bws lleol y tu allan i Lundain ddarllen y canllaw hwn. Bydd yn dweud wrthych chi sut i gofrestru eich gwasanaeth ac mae'n disgrifio sut y mae'r system gofrestru'n gweithio. I gofrestru gwasanaeth mae'n rhaid i chi gael trwydded gweithredwr PSV ddilys (neu drwydded bws cymunedol). Os nad oes gennych chi'r un o'r rhain dylech ddarllen y Canllaw i Drwyddedau Gweithredwyr PSV (PSV 437) - sydd ar gael mewn Swyddfeydd Ardal Drafnidiaeth neu trwy eu gwefan. Sylwer: os ydych chi'n rhedeg gwasanaeth yn yr Alban, mae rheolau ychydig yn wahanol mewn grym yno (gweler PSV 353A [yr Alban]).

Nid yw hon yn ddogfen gyfreithiol. Os ydych chi am wybod mwy am y sefyllfa gyfreithiol dylech gyfeirio at Ddeddf Trafnidiaeth 1985, yn enwedig adran 6, Deddf Trafnidiaeth 2000 a Rheoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (Cofrestru Gwasanaethau Lleol) 1986 (SI 1986/1671) fel y'u diwygiwyd gan (SI 1988/1879), (SI 1989/1064), (SI 1993/2752), (SI 1994/3271) ac (SI 2002/182). Maent i gyd ar gael o Lyfrfa Ei Mawrhydi (HMSO) a gellir eu harchebu trwy siopau llyfrau.

1 BETH YW GWASANAETH LLEOL?

Mae'n fws sy'n defnyddio Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSV) i gludo teithwyr am gostau amrywiol dros bellter byr. Gall y daith fod yn unrhyw hyd, cyn belled â bod teithwyr yn gallu dod oddi ar y bws yn ystod y daith o fewn 24.15 km (15 milltir) (wedi'i fesur mewn llinell syth) o'r fan y daethant ar y bws.

Os ar siwrnai hir a bod rhai rhannau o'r daith lle gall teithwyr fynd ar siwrneiau lleol o 24.15 km (15 milltir) neu lai, yna dylai'r rhannau hynny o'r daith gael eu cofrestru fel gwasanaethau lleol ar wahân.

2 BETH A OLYGIR WRTH BRIS TOCYN AR WAHÂN?

Dyma pan fydd pob teithiwr yn gwneud taliad ar wahân i'r gyrrwr, tocynnwr neu asiant i ddefnyddio'r gwasanaeth. Gall y teithwyr dalu wrth iddynt ddod ar y bws, neu gallant brynu tocynnau ymlaen llaw, prynu tocynnau tymor neu ddefnyddio tocynnau consesiwn. Gellir talu hefyd mewn ffyrdd anuniongyrchol (e.e. tocyn i gyngerdd, sy'n cynnwys teithio yn ôl a blaen). Mae'r rhain i gyd yn brisiau ar wahân.

3 BETH SYDD RAID I MI EI GAEL CYN DECHRAU FY NGWASANAETH LLEOL?

Os nad yw'r gwasanaeth yn aros o fewn cyffiniau Llundain* o gwbl, bydd angen i chi gofrestru'r gwasanaeth gyda'r Comisiynydd Traffig yn unig. Fel arfer, dylech wneud hyn

o leiaf 56 diwrnod cyn y dyddiad yr ydych am ddechrau'r gwasanaeth. Ar gyfer yr ychydig achosion lle gellir derbyn rhybudd byrrach, gweler Rhan 3.
Os yw'r gwasanaeth yn cynnwys unrhyw fannau aros yn Llundain* lle gall pobl ymuno neu adael y bws, bydd rhaid i chi gael trwydded Gwasanaeth Llundain. Cysylltwch â Transport for London neu ewch i'w gwefan yn www.tfl.gov.uk am ragor o fanylion.

(*Mae Llundain yn cyfeirio at 32 Bwrdeistref Llundain a Dinas Llundain).

4 A YW GWIBDEITHIAU A THEITHIAU PLESER YN CYFRIF FEL GWASANAETHAU BWS LLEOL?

Ar wibdaith neu daith bleser mae'n rhaid i'r holl deithwyr deithio gyda'i gilydd i'r un man neu fannau ac yna ddychwelyd gyda'i gilydd i'r man cychwyn. (Nid oes rhaid iddynt ddod ar y bws yn union yr un man.) Mae gwibdeithiau a theithiau pleser yn wasanaethau bws lleol sydd angen eu cofrestru os:

- telir pris tocyn ar wahân;
- bod y siwrnai gyfan o fewn radiws o 24.15 km (15 milltir) o'r man cychwyn;
- eu bod yn rhedeg unwaith neu fwy yr wythnos am o leiaf 6 wythnos yn olynol

Os nad ydych chi'n siŵr am ba hyd y bydd y gwasanaeth yn rhedeg, dylech gofrestru er mwyn bod yn siŵr. Bydd unrhyw wibdaith neu daith bleser sy'n wasanaeth bws lleol ac sy'n aros yn Llundain angen trwydded gwasanaeth. Unwaith eto, dylech gysylltu â Transport for London am fanylion pellach.

5 A OES RHAID I BOB GWASANAETH BWS LLEOL FOD AR GAEL I'R CYHOEDD?

Nac oes, er enghraifft gall bysiau ysgol neu wasanaethau gwaith fod yn wasanaethau bws lleol os yw'r defnyddwyr yn talu pris tocyn ar wahân (yn enwedig os yw teithwyr yn talu symiau gwahanol sy'n ddibynnol ar ba mor bell maent yn ei deithio). Ond nid yw'r math hwn o wasanaeth yn wasanaeth bws lleol ac nid oes rhaid ei gofrestru os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- bod rhywun heblaw'r gweithredwr neu ei asiant yn gyfrifol am drefnu'r daith ac am ddod â'r teithwyr at ei gilydd;
- nid yw'r daith yn cael ei hysbysu i'r cyhoedd ymlaen llaw;
- mae pob teithiwr yn teithio yn ôl a blaen o'r un man (e.e. ysgol neu ffatri); ac
- mae'r holl deithwyr yn talu'r un faint waeth pa mor bell maent yn ei deithio.

Ni fydd yn hawdd dweud bob amser a yw gwasanaeth bws yn un lleol ai peidio. Os ydych chi'n ansicr, gofynnwch i'r Swyddog Trafnidiaeth Ardal am gymorth. Gweler cwestiwn 31 am gymhwysedd eich gwasanaeth i dderbyn Grant Gweithredwr Gwasanaeth Bws.

6 BETH YW COFRESTRIAD?

Mae cofrestriad yn rhybudd o'r gwasanaeth bws lleol yr ydych am ei redeg. Er mwyn cofrestru, mae'n rhaid i chi roi disgrifiad llawn i'r Comisiynydd Traffig o'r gwasanaeth y byddwch yn ei redeg. Gall y Comisiynydd gymryd camau yn erbyn unrhyw weithredydd

nad yw'n rhedeg gwasanaeth fel yr un a gofrestrwyd, neu sy'n rhedeg gwasanaeth bws lleol heb ei gofrestru.

Mae'n rhaid i bob gwasanaeth lleol gael ei gofrestru heblaw:

- y rhannau o wasanaeth bws lleol gyda mannau aros o fewn ardal Llundain (mae'n rhaid i'r rhain gael Trwydded Gwasanaeth Llundain); neu
- wasanaethau bws lleol sy'n cael eu rhedeg o dan gytundeb gyda'r cyfarwyddwr masnachfraint rheilffordd i gymryd lle unrhyw wasanaeth rheilffordd sydd wedi ei effeithio neu ei dynnu'n ôl dros dro; neu
- wibdeithiau neu deithiau pleser nad ydynt yn rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos am o leiaf 6 wythnos yn olynol (e.e. gwasanaeth sy'n rhedeg unwaith bob pythefnos neu'n llai aml).

7 PWY ALL GOFRESTRU GWASANAETH BWS LLEOL?

Gall unrhyw un sydd â thrwydded gweithredydd PSV ddilys gofrestru gwasanaeth bws lleol, cyn belled nad oes amod ar y drwydded sy'n gwahardd y deiliad rhag rhedeg y math hwnnw o wasanaeth, (mae Cwestiwn 20 yn egluro sut y gall hyn ddigwydd).

Gall y bobl ganlynol hefyd gofrestru gwasanaethau bws lleol:

- gall deiliaid trwydded bws cymunedol gofrestru gwasanaeth bws cymunedol;
- gall awdurdod addysg lleol (awdurdod addysg yn yr Alban) gofrestru gwasanaeth bws ysgol a ddarperir gan ei gerbydau ei hun;
- gall gweithredwyr tacsi trwyddedig gofrestru trwy gael 'trwydded gweithredwr PSV arbennig' sy'n ddigon hawdd ei chael (gweler Rhan V y Canllaw i Drwyddedu Gweithredwyr PSV (PSV437)).

8 BETH DDYLWN I EI WNEUD CYN COFRESTRU FY NGWASANAETH?

Mae cofrestru gwasanaeth yn gam mawr i'w gymryd. Cyn mynd ati i gofrestru dylech feddwl yn ofalus am yr angen am eich gwasanaeth a'r ochr ymarferol o'i redeg. A yw'r llwybr yn addas, ac a oes gennych chi gerbyd addas? Allwch chi gadw at yr amserlen, o ystyried amodau traffig y llwybr? Cofiwch, bydd rhaid i chi redeg y gwasanaeth yn union fel y mae wedi'i gofrestru gennych, hyd yn oed os yw eich staff yn sâl neu os yw eich cerbyd wedi torri. Bydd rhaid i chi gael trefniadau wrth gefn yn barod ar gyfer amgylchiadau o'r fath. Dylech feddwl hefyd am lefel y gwasanaeth y byddwch yn ei redeg ar wyliau Banc yn ogystal â dyddiau'r wythnos a phenwythnosau. Yn yr un modd, os oes ffactorau arbennig yn yr ardal fel tymhorau prifysgol, bydd rhaid i chi feddwl sut y byddwch yn ymdopi yn ystod y gwyliau. Efallai y byddwch yn gweld fod nifer y teithwyr yn gostwng a'ch bod am leihau nifer y siwrneiau. Gwnewch yn siŵr hefyd eich bod yn ymwybodol a oes traffig i'w cael yn rheolaidd ar eich taith ac, os oes, gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu am hyn pan fyddwch yn cynllunio'ch amserlen. Efallai y bydd angen i chi neilltuo mwy o amser yn ystod yr oriau prysur nag yn ystod gweddill y diwrnod.

Cyn cofrestru eich gwasanaeth dylech gael gair gyda'r heddlu a'r awdurdod lleol ynghylch eich llwybr a'r mannau aros, yn enwedig os ydych chi am ddefnyddio ffyrdd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan fysiau ar hyn o bryd neu os ydych chi am ddefnyddio arosfannau newydd. Efallai y byddant yn gallu rhagweld problemau nad

ydych chi wedi meddwl amdanynt a'ch helpu i ddatrys problemau gyda thagfeydd traffig a diogelwch ar y ffordd cyn i chi gyflwyno'ch cofrestriad. Os na fydd problemau o'r fath wedi'u datrys, gall awdurdod lleol osod cyfyngiadau ar y ffyrdd yr ydych am eu defnyddio, neu gallant ofyn i'r Comisiynydd Traffig gytuno ag 'amodau rheoleiddio traffig' (gweler Cwestiwn 24). Dylech hefyd ymchwilio i weld a oes amodau rheoleiddio traffig mewn grym eisoes yn yr ardal lle'r ydych am redeg eich gwasanaeth.

9 SUT MAE MYND ATI I GOFRESTRU FY NGWASANAETH?

Bydd eich Swyddfa Ardal Drafnidiaeth leol yn rhoi ffurflen gais (PSV350) i chi. Dylech ei llenwi'n ofalus, gan roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen am y gwasanaeth. Anfonwch y ffurflen, ynghyd â'r ffi, at Swyddfa Ardal Drafnidiaeth yr ardal lle bydd y gwasanaeth yn cychwyn. I gael y cyfeiriadau – gweler Rhan 4 y canllaw hwn. Os oes gan y gwasanaeth fannau aros mewn mwy nag un ardal drafnidiaeth, bydd y swyddfa sydd wedi derbyn eich cais yn anfon copi ohono i'r lleill. Dylech ganiatáu digon o amser, gan fod rhaid i chi roi rhybudd o 56 diwrnod yn y rhan fwyaf o achosion cyn y cewch ddechrau eich gwasanaeth. Daw'r cyfyngiad amser hwn i rym ar y diwrnod y bydd y Comisiynydd Traffig yn derbyn eich cofrestriad.

Ni all y Comisiynydd ei dderbyn oni bai fod eich holl fanylion yn gywir.

10 PWY SY'N GYFRIFOL AM GOFRESTRU GWASANAETH SY'N CAEL EI DDARPARU GAN FWY NAG UN GWEITHREDYDD?

Os ydych chi am redeg gwasanaeth ar y cyd gyda gweithredydd PSV arall, mae gennych ddewis. Un ai:

- mae pob gweithredydd yn cofrestru'r rhan o'r amserlen y bydd yn ei rhedeg ar wahân; neu
- gall un o'r gweithredwyr (y cydlynydd) gofrestru'r gwasanaeth ar ran yr holl weithredwyr

dan sylw (mae'n rhaid iddo roi rhestr lawn o'r holl weithredwyr, eu cyfeiriad a rhif eu trwydded gweithredydd PSV). Dylech fod yn ymwybodol y gall fod oblygiadau o ran y Ddeddf Cystadleuaeth yn achos unrhyw wasanaethau ar y cyd. Dylech gysylltu â'r Swyddfa Masnachu Teg i drafod goblygiadau unrhyw wasanaeth ar y cyd. Ar y cyfan, os yw gweithredwyr yn defnyddio'r un rhif ar gyfer gwasanaeth neu'r un cynllun lliwiau ar y cerbydau, ond sydd fel arall yn gwneud pob penderfyniad masnachol ar wahân, nid yw gwasanaeth ar y cyd yn debygol o achosi unrhyw anawsterau o bwys o ran cystadleuaeth. Fodd bynnag, os oes cytundeb rhwng y gweithredwyr ynglŷn ag amseriad neu brisiau tocynnau, neu os ydynt yn rhannu elw neu refeniw, byddai'r gwasanaeth ar y cyd fel arfer yn achosi anawsterau sylweddol o ran cystadleuaeth. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae taflen, 'Competition Legislation and the Bus Industry' ar gael oddi wrth yr Adran Trafnidiaeth, Buses & Taxis Division, Great Minster House, 76 Marsham Street, Llundain SW1P 4DR.

11 PA FATH O FANYLION SYDD RAID I MI EU RHOI AM Y GWASANAETH BWS?

Mae'r ffurflen gais yn gofyn am fanylion am y gwasanaeth fel:

- y mannau cychwyn a gorffen;
- llwybr y gwasanaeth (gan gynnwys map);
- trefniadau aros;
- amserlen y gwasanaeth;
- y mathau o gerbydau a ddefnyddir ar y gwasanaeth; a
- rhif(au) eich trwydded gweithredwr PSV neu rif(au) eich trwydded bws cymunedol.

Ni chaiff y gwasanaeth ei gofrestru oni bai fod y ffurflen gywir wedi ei llenwi a bod yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi'u hamgáu. Ceir help i lenwi'r ffurflen yn Rhan 2.

12 A OES UNRHYW FATHAU ERAILL O WASANAETH A GAF EU RHEDEG?

Daeth Rheoliadau newydd i rym yn Chwefror 2004 sy'n caniatáu cofrestru gwasanaethau bws hyblyg sy'n gwasanaethu mwy nag un gymuned neu gymdogaeth leol o fewn ardal ddaearyddol benodol. Am ragor o wybodaeth am gofrestru gwasanaethau hyblyg, dylech ddarllen PSV358A.

13 BETH OS WYF AM DDECHRAU'R GWASANAETH O FEWN LLAI NA 56 DIWRNOD?

Ni chaniateir i chi wneud hyn oni fod un o'r eithriadau'n berthnasol yn eich achos chi. Rhoddir yr eithriadau yn Rhan 3. Bydd rhaid cael cytundeb y Comisiynydd Traffig cyn y gellir caniatáu'r rhan fwyaf ohonynt.

14 A OES RHAID I MI ANFON COPI O FY MANYLION I UNRHYW UN ARALL?

Oes, mae'n rhaid i chi anfon copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau a'r dogfennau eraill h.y. disgrifiad o'r llwybr, amserlen a map ayb i bob sir, awdurdod unedol, cyngor rhanbarthol neu'r ynysoedd neu'r Weithrediaeth Cludiant Teithwyr sy'n cynnwys llwybr eich gwasanaeth. Mae rhestr o gyfeiriadau ar gael yn y Swyddfeydd Ardal Drafnidiaeth.

15 A OES FFI'N CAEL EU CODI AM GOFRESTRU?

Oes. Codir tâl am gofrestru (gweler yr atodlen ar wahân). Mae'n rhaid i chi anfon siec neu archeb bost (yn daladwy i'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr) gyda'ch cais (ni dderbynnir arian parod) neu ni dderbynnir y cais.

16 A ELLIR GWRTHOD FY NGHAIS?

Mae'n rhaid i'r Comisiynydd Traffig dderbyn pob cais a wneir i gofrestru gwasanaethau os ydynt wedi eu cwblhau'n gywir, ond bydd yn gwrthod cofrestru gwasanaeth os:

- nad oes gennych chi drwydded gweithredydd PSV neu drwydded bws cymunedol ddilys;
- bod eich trwydded gweithredydd PSV yn cynnwys amod sy'n eich rhwystro rhag rhedeg y math o wasanaeth yr ydych wedi gwneud cais i'w gofrestru;

- mae'r gwasanaeth, neu ran ohono'n rhedeg yn Llundain ac mae'n rhaid cael Trwydded Gwasanaeth Llundain;

- nid yw'r ffurflen gais yn rhoi digon o wybodaeth am y gwasanaeth (mewn achos o'r fath gofynnir i chi roi rhagor o wybodaeth);
- nid ydych wedi cynnwys y ffi.

17 SUT FYDDAF YN GWYBOD FOD FY NGHAIS WEDI EI DDERBYN?

Bydd y Swyddfa Ardal Drafnidiaeth yn anfon llythyr atoch yn rhoi dyddiad derbyn y cofrestriad, cyfeirnod y gwasanaeth cofrestredig a'r dyddiad cynharaf pan gaiff y gwasanaeth ddechrau.

18 AM BA HYD FYDD COFRESTRIADAU'N DDILYS?

Mae'r cofrestriad yn ddilys am faint bynnag o amser yr ydych chi am redeg y gwasanaeth hyd nes y byddwch am ei ddirwyn i ben. Cofiwch fod rhaid i chi anfon llythyr i ddweud eich bod am ddirwyn gwasanaeth i ben neu bydd y Comisiynydd Traffig yn disgwyl i chi ddal ati i'w redeg a gall eich cosbi am beidio gwneud hynny.

19 A FYDD RHAID I MI REDEG Y GWASANAETH YN UNION FEL Y CAFODD EI GOFRESTRU?

Bydd. Wrth gofrestru eich gwasanaeth yr ydych yn ymrwymo i'w redeg yn y ffordd a ddisgrifiwyd gennych chi ar y ffurflen. Dyna pam ei bod yn bwysig iawn fod manylion y gwasanaeth yn gwbl gywir pan fyddwch yn gwneud cais. Dylech gadw copi o'r ffurflen gais fel eich bod yn gwybod beth yn union yr ydych chi wedi'i gofrestru ac y gallwch gyfeirio'n ôl ato os byddwch am wneud cais i newid y cofrestriad rywbryd yn y dyfodol.

Mae rhai eithriadau i'r rheol hon:

- Nid oes rhaid i chi lynu wrth yr amserlen a gofrestrwyd ar Ddydd Nadolig, Gwener y Groglith a gwyliau banc, ond os ydych chi'n gwybod y byddwch chi'n rhedeg gwasanaeth ar y Sul neu ddim gwasanaeth o gwbl ar unrhyw un o'r dyddiau hyn, fe'ch cynghorir i nodi hynny ar eich ffurflen gais. Dylech nodi unrhyw drefniadau arbennig sydd gennych chi ar gyfer gwyliau cyhoeddus lleol a fydd yn eich arbed rhag gorfod cofrestru'r amrywiadau hyn yn ddiweddarach.
- Os yw'r gwasanaeth yn wibdaith neu'n daith bleser, mae gennych hawl i ganslo unrhyw daith heb roi rhybudd.
- Os ydych chi'n rhedeg gwasanaeth bws ysgol neu waith dylech ddangos ar eich ffurflen gais y bydd y gwasanaeth yn rhedeg ar y dyddiau pan fydd yr ysgol, ffatri ayb ar agor. Os bydd y cyhoedd yn cael defnyddio'r gwasanaethau hyn, dylech hefyd ddangos hyn ar yr amserlen gyhoeddedig.
- Mae'n rhaid i fathau eraill o wasanaeth, y mae eu hangen ar y cyhoedd i deithio o un lle i'r llall, lynu wrth y llwybr a'r amserlen a gofrestrwyd. Bydd unrhyw newid i'r amserlen yn golygu y bydd rhaid i chi wneud cais i newid eich cofrestriad.

Gallwch hefyd gofrestru gwasanaeth sy'n cael ei redeg i ymateb i alw gan deithwyr. Gall gludo teithwyr sydd wedi archebu sedd ymlaen llaw o unrhyw fan ('Galw'r Gyrrwr') neu

gall wyro oddi wrth y llwybr i ollwng teithwyr yn lle bynnag maent am fynd. Os ydych chi'n dymuno rhedeg gwasanaeth fel hyn ni allwch roi'r disgrifiad arferol o lwybr nac amserlen, ond mae'n rhaid i chi'r roi'r disgrifiad mwyaf manwl posibl o sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei redeg a sut y gall teithwyr ei ddefnyddio; bydd rhaid i chi wedyn ei redeg yn y ffordd a ddisgrifiwyd gennych chi. Mae rhagor o fanylion am gludiant hyblyg ar gael oddi wrth yr Adran Trafnidiaeth, Buses & Taxis Division, Great Minster House, 76 Marsham Street, Llundain SW1P 4DR.

20 BETH FYDDAI'N DIGWYDD OS NA FYDDWN YN RHEDEG Y GWASANAETH FEL Y MAE WEDI'I GOFRESTRU?

Mae Comisiynwyr Traffig wedi datgan eu bod yn disgwyl i bob gweithredydd bws redeg eu gwasanaethau mewn ffordd ddibynadwy. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi redeg eich gwasanaeth fel nad yw'n fwy na munud yn gynnar a dim mwy na 5 munud yn hwyr 95% o'r amser. Os na allwch wneud hyn gall y Comisiynydd Traffig:

- osod amod ar eich trwydded gweithredydd PSV sy'n eich rhwystro rhag rhedeg gwasanaethau lleol penodol, neu unrhyw wasanaeth lleol o gwbl. Os yw'n gwneud hyn gall hefyd ganslo'r cofrestriadau a wnaethpwyd gennych chi; a/neu
- gall gyflwyno dirwy o:
  a. £550, neu
  b. unrhyw swm arall y gall yr Ysgrifennydd Gwladol (yn achos Lloegr) neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yn achos Cymru) ei gorchymyn i gael ei lluosi gyda chyfanswm nifer y cerbydau y mae'r gweithredydd wedi'u trwyddedu i'w defnyddio o dan yr holl drwyddedau gweithredydd PSV a ddelir ganddo.

Gall y Comisiynydd wneud un o'r pethau hyn neu'r ddau, ond ni fydd yn ystyried gwneud hynny heb gynnal ymchwiliad priodol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi egluro pam nad oedd eich gwasanaeth yn rhedeg mewn ffordd ddibynadwy ac os oes rhesymau da dros hynny bydd y Comisiynydd yn eu cadw mewn cof. Mae gennych hawl i apelio i'r Tribiwnlys Trafnidiaeth os ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch trin yn annheg.

21 BETH OS BYDDAF AM NEWID Y GWASANAETH?

Bydd rhaid i chi wneud cais ar ffurflen PSV355 i newid y cofrestriad. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd rhaid i chi roi 56 diwrnod, rhwng dyddiad cofrestru'r amrywiad a'r dyddiad yr ydych am i'r newidiadau ddod i rym. Gellir derbyn llai o rybudd mewn rhai achosion (gweler Rhan 3). Ond dylech holi eich Swyddfa Ardal Drafnidiaeth yn gyntaf. Codi tâl am wneud unrhyw newid, a bydd rhaid i chi anfon y swm priodol gyda'r ffurflen (gweler yr atodlen ar wahân).

22 BETH OS WYF AM ROI'R GORAU I REDEG Y GWASANAETH?

Bydd rhaid i chi wneud cais i ganslo'r cofrestriad, gan ganiatáu 56 diwrnod o'r dyddiad pan fydd y Comisiynydd Traffig yn derbyn y cais hyd at y dyddiad pan fyddwch yn dymuno dirwyn y gwasanaeth i ben. Tan y dyddiad hwnnw, bydd rhaid i chi ddal ati i redeg y gwasanaeth, (gellir derbyn llai o rybudd mewn rhai achosion – gweler Rhan 3). Nid oes rhaid i chi dalu i ganslo cofrestriad.

23 SUT FYDDAF YN GWYBOD BETH SYDD WEDI'I GOFRESTRU GAN

WEITHREDWYR ERAILL?

Mae pob Swyddfa Ardal Drafnidiaeth yn cyhoeddi manylion am y gwasanaethau bws lleol sydd wedi'u cofrestru mewn llyfryn o'r enw 'Notices and Proceedings', sy'n cael ei gyhoeddi pob pythefnos. Mae newidiadau i wasanaethau a rhai sy'n cael eu canslo'n cael eu cyhoeddi yma hefyd. Gallwch archebu copïau o 'Notices and Proceedings' o Swyddfeydd Ardal Drafnidiaeth, a chewch edrych arnynt am ddim yn y swyddfeydd pan fydd y cownteri ar agor i'r cyhoedd. Mae copïau ar gael i'w gweld hefyd ar wefan VOSA (www.businesslink.gov.uk). Gallwch hefyd weld cofrestriadau gwasanaethau penodol wrth y cownter cyhoeddus neu ofyn am i gopïau ohonynt gael eu hanfon atoch am y gost o'u copïo a'u hanfon atoch.

24 A ELLIR GOSOD CYFYNGIADAU AR Y GWASANAETH YR WYF AM EI REDEG?

Mewn amgylchiadau arbennig, gellir. Ar gais awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drafnidiaeth ('awdurdod traffig'), gall y Comisiynydd Traffig osod amodau rheoliadau traffig ar eich trwydded gweithredydd PSV os yw'r Comisiynydd o'r farn bod eu hangen, i atal peryglon i ddefnyddwyr y ffordd ac i leddfu tagfeydd traffig difrifol neu lygredd amgylcheddol mewn ardal benodol.
Gall yr amodau effeithio ar:

- lwybrau gwasanaethau;
- y mannau aros;
- yr adegau pan all cerbydau aros ac am ba hyd;
- y symudiadau bacio neu droi a ganiateir i gerbydau eu gwneud; a
- nifer y cerbydau, y math o gerbyd neu eu hamledd.

Os oes sawl gweithredwr yn rhedeg gwasanaethau lleol mewn ardal, bydd amodau rheoliadau traffig yn cael eu gosod ar drwydded pob gweithredwr, er, ar adegau, efallai y bydd rhaid cael mân wahaniaethau rhwng gweithredwyr (er enghraifft, dynodi mannau aros ar gyfer gwasanaethau penodol).

25 A OES GEN I HAWL I OFYN AM YMCHWILIAD?

Bydd hysbysiad o amodau rheoliadau traffig yn cael eu cyhoeddi yn 'Notices and Proceedings' a bydd unrhyw weithredwyr a effeithir gan y cynnig yn cael eu hysbysu. Os oes gennych chi wasanaeth cofrestredig a fydd, neu a all gael ei effeithio gan gynnig, gallwch ofyn i'r Comisiynydd Traffig am ymchwiliad. Bydd rhaid i chi wneud hynny o fewn 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad.

Mewn rhai achosion gall y Comisiynydd Traffig benderfynu bod rhaid i'r amodau ddod i rym ar unwaith. Mewn achos o'r fath bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i bob gweithredydd dan sylw a bydd yr amod yn cael ei roi ar eu trwyddedau. Er hynny, bydd gan weithredwyr hawl i ofyn am ymchwiliad os ydynt yn teimlo fod yr amodau'n annheg neu'n anaddas. Bydd rhaid iddynt wneud hynny o fewn 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad yn 'Notices and Proceedings'.

Os yw gweithredydd yn anhapus gyda phenderfyniad y Comisiynydd Traffig gall apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n rhaid gwneud hyn o fewn 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad yn 'Notices and Proceedings'.

Os yw'r gweithredydd, yn ddiweddarach, yn teimlo nad oes bellach angen yr amodau rheoliadau traffig neu y dylid eu newid, gall wneud cais i'r Comisiynydd Traffig i gyflwyno'r newidiadau hyn. Os bydd y Comisiynydd Traffig yn gwrthod gweithredu ar yr awgrym, neu os yw'n gwneud penderfyniad anffafriol, gall y gweithredydd apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol.

26 BETH OS NA ALLAF REDEG FY NGWASANAETH O DAN YR AMODAU HYN?

Mewn achos fel hyn bydd rhaid i chi newid y cofrestriad. Mae gennych 28 diwrnod i wneud hynny. Yn y cyfamser, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau rheoliadau traffig, a pharhau i redeg eich gwasanaeth gystal ag y gallwch yn unol â'r amodau. Ni chewch eich cosbi am fethu rhedeg eich gwasanaeth yn union fel y'i cofrestrwyd, ac ni fydd rhaid i chi dalu ffi os byddwch yn newid y cofrestriad o ganlyniad i'r amodau hyn.

27 BETH OS NA FYDDAF YN CYDYMFFURFIO Â'R AMODAU?

Byddwch yn torri'r gyfraith os na fyddwch yn cydymffurfio ag amodau rheoliadau traffig, neu unrhyw amodau eraill ar eich trwydded gweithredydd PSV. (Sylwer: gall Comisiynydd Traffig osod amod ar eich trwydded sy'n eich gwahardd rhag rhedeg rhai mathau o wasanaethau, neu unrhyw wasanaeth lleol o gwbl).

28 PA GYMORTHDALIADAU SYDD AR GAEL I REDEG GWASANAETHAU BWS LLEOL?

Bydd awdurdodau sirol ac unedol, cynghorau rhanbarthol a'r ynysoedd ac Awdurdodau Gweithredol Trafnidiaeth i Deithwyr (PTEs) yn cynnig contractau gyda chymhorthdal i wasanaethau nad ydynt yn ymarferol o safbwynt masnachol, ond sydd, yn eu barn hwy, yn angenrheidiol o safbwynt cymdeithasol. Mae rhai cynghorau dosbarth/bwrdeistref yng Nghymru a Lloegr hefyd yn rhoi cymorthdaliadau i'r math hwn o wasanaeth. Os yw cyngor neu PTE am roi cymhorthdal i unrhyw wasanaeth bydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gofyn i weithredwyr gyflwyno tendr, a bydd y contract a gaiff gymhorthdal yn cael ei ddyfarnu i'r gweithredydd sy'n cynnig y gwerth gorau am arian. Efallai y byddai'n werth chweil i chi gysylltu â'r cyngor neu'r PTE yn eich ardal i ofyn iddynt anfon manylion atoch am eu holl wahoddiadau i dendro, neu am unrhyw fath a fyddai o ddiddordeb i chi.

29 A OES RHAID I BOB GWASANAETH SY'N DERBYN CYMHORTHDAL GAEL EI ROI ALLAN I DENDR?

Mae'n rhaid i bob cytundeb cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau bws gael eu rhoi allan i dendr, ond bai fod y cymorthdaliadau dan sylw'n fach iawn. Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i drafod eu trefniadau. Pan fydd cyngor neu PTE am gychwyn gwasanaeth ar fyr rybudd (e.e. pan fydd gweithredydd arall wedi rhoi'r gorau i'r gwasanaeth), gall ddyfarnu contract tymor byr heb dendro amdano, ond bydd rhaid gwahodd cynigion am dendr cyn gynted â phosibl wedi hynny.

30 OS NAD YW FY NGWASANAETH YN TALU'I FFORDD A OES MODD GOFYN AM GYMHORTHDAL?

Gallwch ofni i gyngor neu PTE am gymhorthdal i wasanaeth os nad yw'n gwneud unrhyw elw, er nad oes rhaid iddynt dderbyn eich cais. Hyd yn oed os ydynt yn cytuno i roi cymhorthdal, byddant fel arfer yn rhoi'r gwasanaeth allan i dendr, sy'n golygu ei bod yn bosibl mai gweithredydd arall fyddai'n ennill y tendr.

31 ALLA I WNEUD CAIS AM GRANT GWEITHREDYDD GWASANAETHU BYSIAU (YR HYN A ADWAENIR GYNT FEL YR AD-DALIAD TRETH TANWYDD)?

Mae Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau yn daladwy i wasanaethau lleol cofrestredig (a thrwyddedau gwasanaethau Llundain a thrafnidiaeth gymunedol) ar yr amod:

- nad ydynt yn wibdeithiau neu deithiau pleser;
- eu bod yn cwrdd ag amodau penodol eraill, yn y bôn i sicrhau fod y cyhoedd yn gallu eu defnyddio.

Mae taflen sy'n egluro'r amodau perthnasol a sut i wneud cais am grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau ar gael oddi wrth yr Adran Drafnidiaeth, Operators' Grant Section, Zone 3/13, Great Minster House, 76 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DR. Mae gwybodaeth sy'n egluro sut y gall gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol fod yn gymwys ar gael ar wefan yr Adran Drafnidiaeth yn www.dft.gov.uk

32 BETH SY'N DIGWYDD YNGLŶN Â THOCYNNAU MANTAIS?

Mae'n rhaid i awdurdodau redeg cynlluniau tocynnau mantais i bobl hŷn, dall ac anabl, a gallant wneud hynny i blant hefyd. Am ragor o wybodaeth am y math o gynllun sydd ar gael mewn unrhyw ardal benodol bydd rhaid i chi gysylltu â'r awdurdod lleol dan sylw.

Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol: Rhan 2

SUT I GOFRESTRU MANYLION EICH GWASANAETH BWS LLEOL

I gofrestru mae'n rhaid i chi roi manylion am y gwasanaeth y byddwch yn ei redeg, gan ddefnyddio'r ffurflen gais gywir (PSV350). Os ydych chi'n dymuno dechrau'ch gwasanaeth mewn llai na 56 diwrnod bydd rhaid i chi ddarllen Rhan 3, sy'n egluro sut y gallwch wneud hyn. Bydd rhaid i chi hefyd lenwi a chynnwys ffurflen PSV350A.

Os ydych chi'n dymuno newid neu ganslo cofrestriad dylech ddefnyddio ffurflen PSV355. Mewn rhai achosion bydd rhaid i chi anfon ffurflen gais newydd gyda hon. Gan fod y ffurflenni'n cael eu llungopïo dylech ddefnyddio inc du i'w llenwi. Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen, dylech ei hanfon at y Comisiynydd Traffig yn yr ardal lle bydd eich gwasanaeth yn cychwyn.

SUT MAE LLENWI'R FFURFLEN

CWESTIYNAU 1-5

Os ydych chi'n gydlynydd ar ran gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan fwy nag un gweithredydd, gan ddefnyddio dalen o bapur ar wahân, rhowch

- enw;
- cyfeiriad; a
- rhif trwydded gweithredu PSV pob un ohonynt.

Os ydych chi'n rhedeg y gwasanaeth o fwy nag un Ardal Drafnidiaeth, rhowch eich rhifau trwydded gweithredu PSV ar gyfer pob Ardal Drafnidiaeth. Os oes gennych chi drwydded(au) bysiau cymunedol, dylech roi'r rhif hwnnw/y rheiny ar y ffurflen hefyd.

CWESTIYNAU 6, 7 ac 8

Rhowch ddisgrifiad llawn o fannau cychwyn a gorffen eich gwasanaeth (e.e. enw'r stryd a'r dref, ynghyd â'r cod post, os yn bosibl).

CWESTIWN 9

Rhowch rif neu enw i'ch gwasanaeth gan fod hyn yn ei gwneud yn haws i'w adnabod.

CWESTIWN 10

Nid oes angen cofrestru gwibdeithiau a theithiau pleser oni bai eu bod yn rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos am fwy na 6 wythnos yn olynol. Dylech ddangos eu bod yn wibdeithiau a theithiau pleser er mwyn eich galluogi i'w canslo heb y rhybudd arferol o

56 diwrnod. Nid yw gwibdeithiau a theithiau pleser yn gymwys i dderbyn grantiau gweithredwyr gwasanaethau bysiau. Nid oes rhaid i chi roi disgrifiad llawn o'r gwasanaeth ond mae'n rhaid i chi (gan ddefnyddio taflen ddisgrifio llwybrau) roi amlinelliad o'r llwybr gan gynnwys unrhyw fannau lle gall teithwyr ddod ar y bws (heblaw'r man cychwyn), awgrym o'r adeg neu adegau o'r flwyddyn pan fydd y gwasanaeth yn rhedeg, uchafswm nifer y cerbydau a fydd yn teithio ar unrhyw ddiwrnod penodol.

TAFLEN DDISGRIFIO LLWYBRAU

Ceir 'Taflen ddisgrifio llwybrau' wag ar gefn y ffurflen; gallwch ei llungopïo os byddwch angen taflenni ychwanegol.

Ar y daflen ddisgrifio llwybrau mae'n rhaid i chi:

- ddisgrifio'r llwybr yn ddigon manwl i ddangos yr holl ffyrdd a ddefnyddir, gan gynnwys amrywiadau ar gyfer siwrneiau penodol; os nad oes gan eich amrywiadau o leiaf 50% yn gyffredin gyda'r prif lwybr, dylech ofyn i'r Swyddfa Ardal Drafnidiaeth a ddylech eu cofrestru ar wahân;
- rhoi manylion am unrhyw bwyntiau, ar hyd y llwybr lle bydd cerbydau'n aros yn hwy na'r hyn sydd ei angen i godi neu ollwng teithwyr;
- rhoi manylion am unrhyw wyriadau a wnaethpwyd ar y galw o lwybr sefydlog (maint tebygol y gwyriad, lle mae'n debygol o ddigwydd a pha mor aml); dylech hefyd nodi a yw'r teithwyr wedi archebu'u lle ymlaen llaw neu beidio; a
- rhoi manylion am unrhyw symudiadau bacio neu droi ar hyd y llwybr.

AMRYWIADAU I'R LLWYBR

Mae'n rhaid cofrestru pob amrywiad ar lwybr. Os ydych chi am newid unrhyw ran o'r llwybr mae'n rhaid i chi roi rhybudd o 56 diwrnod i'r Comisiynydd Traffig. Mewn rhai achosion gellir caniatáu rhybudd byrrach (gweler Rhan 3). Os byddwch yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth heb eu cofrestru'n gyntaf gellir gosod cyfyngiadau ar eich trwydded gweithredydd PSV neu eich dirwyo.

MAP LLWYBR

Mae'n rhaid i chi gynnwys map gyda'ch cais. Dylai hwn ddangos y llwybr ac unrhyw:

- strydoedd un ffordd;
- mannau aros;
- y mannau cychwyn a gorffen; ac
- unrhyw amrywiadau

Bydd y mapiau hyn yn cael eu llungopïo felly dylech eu marcio mewn inc coch neu ddu.

MANNAU AROS

Sylwer fod 'arhosfa bws cydnabyddedig' yn arosfeydd wedi'i dynodi gan arwyddion a bod arosfeydd sefydledig heb eu harwyddo (e.e. 'y tu allan i Westy'r Tarw'). Os bydd y

gwasanaeth yn aros mewn un o grŵp o arosfeydd sy'n agos at ei gilydd nid oes angen i chi restru manylion am bob un ohonynt. Gallwch gyfrif grŵp o arosfeydd fel un arhosfa.

CWESTIWN 14

Atebwch 'Oes' i gwestiwn 14 os yw eich cerbydau, heblaw pan eu bod yn llawn, yn codi ac yn gollwng teithwyr ym mhob arhosfa gydnabyddedig ar hyd y llwybr (ac eithrio unrhyw drefniadau terfynfa arbennig).

CWESTIWN 15

Atebwch 'Oes' i'r cwestiwn hwn os oes angen unrhyw arosfeydd newydd ar gyfer eich gwasanaeth. Os ydych chi wedi ateb 'Oes' dylech drafod eich gwasanaeth gyda'r heddlu a'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl, i sicrhau na fydd problemau o ran diogelwch ar y ffordd ac amodau traffig.

CWESTIWN 16

Atebwch 'Oes' i'r cwestiwn hwn os oes unrhyw ran o'r gwasanaeth yn cael ei redeg heb unrhyw fannau aros sefydlog (e.e. codi a gollwng teithwyr yn lle bynnag y byddant yn gofyn – heb ddefnyddio arosfeydd cydnabyddedig). Os ydych chi'n ateb 'Oes', mae'n rhaid i chi roi manylion ar y daflen arosfeydd am:

- y rhannau hynny o'r llwybr sydd heb fannau aros sefydlog;
- y trefniadau aros ar gyfer y rhannau hynny o'r gwasanaeth.

AMSERLEN

Mae'r amserlen yn ddogfen bwysig iawn y bydd rhaid i chi ei chynnwys gyda'ch cais. Os oes llai na 10 munud rhwng siwrneiau gallwch ei alw'n wasanaeth aml, fel arall:

- yn achos gwasanaethau rheolaidd rhowch amser y siwrneiau ym mhob awr (e.e. 10, 30 a 50 munud wedi'r awr);
- yn achos gwasanaethau afreolaidd rhowch amser pob siwrnai.

Mae'n rhaid i'r amserlen ddangos:

- mannau cychwyn a gorffen y gwasanaeth;
- rhif y llwybr (os oes un);
- y prif bwyntiau amseru wedi'u hamlinellu'n eglur;
- amser y siwrneiau;
- dyddiau'r wythnos a'r adegau o'r flwyddyn pan fydd y gwasanaeth yn rhedeg;
- eithriadau pan na fydd y gwasanaeth yn rhedeg;
- siwrneiau a fydd yn codi neu'n gollwng teithwyr mewn nifer cyfyngedig o arosfeydd yn unig; a
- theithiau byr neu amrywiadau eraill.

Mae'n rhaid cael copi o amserlen gyfoes ar y cerbydau sy'n rhedeg ar y gwasanaeth ac mae'n rhaid iddi fod ar gael bob amser i'r teithwyr gael ei darllen.

NEWIDIADAU I'R AMSERLEN

Bydd rhaid cofrestru pob newid i'r amserlen eto, gan ddefnyddio ffurflen PSV355, gan roi rhybudd o 56 diwrnod (heblaw am yr achosion a amlinellir yn Rhan 3).

AMSERLENNI AR GYFER MATHAU ARBENNIG O WASANAETH

Oni bai eich bod yn rhedeg gwasanaeth lle mae teithwyr yn archebu eu lle ymlaen llaw (e.e. galw'r gyrrwr) neu wasanaeth amledd uchel bob 10 munud neu lai, bydd rhaid i chi gofrestru amserlen lawn a'i dilyn fel a gofrestrwyd.
Os ydych chi am redeg gwasanaeth nad yw'n dilyn amserlen gydag amseroedd sefydlog, mae'n rhaid i chi roi disgrifiad o lefel y gwasanaeth y byddwch chi'n ei ddarparu. Nid yw datganiad cyffredinol y bydd 'gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn ôl y galw' yn dderbyniol. Mae'n rhaid i chi roi;

- amledd y gwasanaeth:
    - . ar wahanol adegau o'r dydd;
    - . ar bob dydd o'r wythnos;
    - . ym mhob mis o'r flwyddyn;
- amseroedd bras o'r siwrneiau cyntaf ac olaf fel yr uchod;
- uchafswm yr amser aros y gall teithwyr ei ddisgwyl; ac
- uchafswm nifer y cerbydau y byddwch yn eu defnyddio ar y gwasanaeth ar unrhyw adeg a nifer y teithwyr y gallant ei gludo.

Os yw bydd tocynnau ar gyfer pob siwrnai'n cael eu harchebu ymlaen llaw dylech roi isafswm y cyfnod o rybudd fydd ei angen ar gyfer archebu a'r dull o archebu tocyn. Bydd y Comisiynydd Traffig yn gwrthod cofrestru'r gwasanaeth os na fyddwch yn rhoi digon o fanylion. Os na fyddwch yn rhedeg y gwasanaeth mewn ffordd foddhaol byddwch yn cael eich atal rhag rhedeg y math hwn o wasanaeth.

Mae'r rheolau ar gyfer amrywio'r gwasanaeth yr un fath â'r rhai ar gyfer gwasanaeth bws arferol (gweler cwestiwn 21 yn Rhan 1 y canllaw hwn).

GRANT GWEITHREDWYR GWASANAETHAU BYSIAU

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (yr Ad-daliad Treth Tanwydd gynt) neu newidiadau yn eich cymhwysedd i dderbyn y grant at:

Yr Adran Trafnidiaeth
Operator Grants Section
Zone 3/13
Great Minster House
76 Marsham Street
Llundain SWlP 4DR

ac nid at y Swyddfa Ardal Drafnidiaeth

CWESTIWN 17

Bydd rhaid i chi wneud cais i gofrestru manylion eich gwasanaeth gyda'r Comisiynwyr Traffig ym mhob Ardal Drafnidiaeth lle bydd eich gwasanaeth yn gweithio; rhestrwch yr Ardaloedd Trafnidiaeth perthnasol yma. Dim ond un ffurflen fydd angen i chi ei llenwi a dylech anfon honno at Ardal Drafnidiaeth y fan lle bydd eich gwasanaeth yn cychwyn. Os yw hyn yn yr Alban bydd rhaid i chi lenwi ffurflen PSV350 (Scotland).

GWASANAETH SY'N MYND I MEWN NEU ALLAN O LUNDAIN

Bydd rhaid i chi gofrestru unrhyw ran o wasanaeth sy'n aros y tu allan i ffiniau Llundain. Bydd rhaid i unrhyw ran o wasanaeth sy'n aros o fewn ffiniau Llundain gael Trwydded Gwasanaeth Llundain. Gweler Gwefan Transport for London am ragor o fanylion. Peidiwch â chymryd y ganiataol y byddwch yn cael rhedeg gwasanaeth i Lundain cyn i chi dderbyn Trwydded Gwasanaeth Llundain.

LLOFNODI'R FFURFLEN

Mae'n rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi i dderbyn cyfrifoldeb am gofrestru gwasanaethau bws lleol ar ran y gweithredydd (e.e. y perchennog, partner, cyfarwyddwr neu reolwr trafnidiaeth).
Nodwch eich swydd o fewn y busnes.

Canllaw i Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol: Rhan 3

ACHOSION LLE CANIATEIR COFRESTRU, CANSLO NEU NEWID GWASANAETHAU AR ÔL LLAI NA 56 DIWRNOD O RYBUDD

Dim ond yn yr achosion canlynol y ceir lleihau'r cyfnod rhybudd arferol o 56 diwrnod. Bydd rhaid gwneud ceisiadau i gofrestru, canslo neu newid gwasanaethau yn y ffordd arferol gan ddefnyddio'r ffurflen briodol PSV350 (i gofrestru) neu PSV355 (i ganslo neu newid). Ond bydd rhaid i chi hefyd lenwi ac amgáu ffurflen PSV350A.

Mae'r canlynol yn achosion arbennig lle ceir cyfnod rhybudd sefydlog gwahanol:

- os yw amserlen i gael ei newid am ran neu'r cyfan o wythnos sy'n cynnwys 24 a 25 Rhagfyr, Gwener y Groglith neu unrhyw ŵyl banc – y rhybudd lleiaf a ganiateir yw 21 diwrnod o ddyddiad derbyn y cais gan y Comisiynydd Traffig.

Yn yr achosion a restrir isod, gellir derbyn rhybudd o lai na 56 diwrnod yn ôl disgresiwn y Comisiynydd Traffig:

- i gofrestru neu newid gwasanaeth i gymryd lle gwasanaeth yr ydych chi neu weithredydd arall wedi rhoi'r gorau i'w redeg neu'n bwriadu rhoi'r gorau i'w redeg – bydd rhaid i chi roi enw'r gweithredydd dan sylw;
- i newid neu ganslo gwasanaeth nad yw ar gael, neu ar gael ar lefel gyfyngedig iawn yn unig, i'r cyhoedd (e.e. bws ysgol neu wasanaeth gwaith);
- i newid neu ganslo gwasanaeth mewn ymateb i gais gan yr awdurdod traffig neu'r heddlu ar sail diogelwch ar y ffordd neu draffig– bydd rhaid i chi roi tystiolaeth o gais o'r fath (e.e. llythyr);
- i gofrestru neu newid gwasanaeth am lai na 21 diwrnod i ymdopi â galw ychwanegol sy'n deillio o ddigwyddiad neu achlysur arbennig (e.e. sioe flodau ayb) – bydd rhaid i chi roi manylion am y digwyddiad neu'r achlysur dan sylw;
- i newid amserlen y gwasanaeth, un ai;
    - . ddim mwy na 10 munud yn gynharach neu'n hwyrach na'r amseroedd a gofrestrwyd, neu
    - . i gyd-fynd â chysylltiad gwasanaeth rheilffordd, fferi neu awyren sydd wedi'u newid – bydd rhaid i chi roi manylion am y gwasanaeth cyswllt dan sylw;
- i newid neu ganslo gwasanaeth am gyfnod o 14 diwrnod neu lai i ymateb i wyliau cyhoeddus lleol neu wyliau sy'n cael ei gadw'n gyffredinol mewn ardal (e.e. Wakes week) – bydd rhaid i chi roi manylion am y gwyliau; neu
- i gofrestru neu amrywio gwasanaeth neu ran o wasanaeth er mwyn diwallu galw neilltuol neu frys i gludo teithwyr;
- os nad oes unrhyw un o'r uchod yn berthnasol, bod amgylchiadau na allech fod wedi'u rhagweld wedi'ch rhwystro rhag rhoi'r rhybudd llawn o 56 diwrnod i gofrestru, canslo neu newid y gwasanaeth – mae'n rhaid i chi roi eglurhad llawn o'r amgylchiadau.

Yn yr achosion canlynol nid oes angen cyfnod ffurfiol o rybudd:

- i gofrestru gwasanaethau trên amgen parhaol. Nid oes rhaid i'r rhain gael eu hategu gan ffurflen PSV350A, ond bydd rhaid rhoi'r manylion ar y ffurflen gofrestru (PSV350) neu'r ffurflen newidiadau/canslo (PSV355), fel sy'n briodol.
- i newid gwasanaeth yn unig er mwyn cydymffurfio ag amod rheoliad traffig neu orchymyn traffig ffyrdd – os yw mewn ymateb i orchymyn traffig ffyrdd, mae'n rhaid i chi roi manylion amdano.

SYLWER: Nid oes angen cofrestru newidiadau i gyfeiriad, rhif ffôn nac enw masnachu gweithredwyr. Bydd unrhyw gofrestriadau, canslo neu newidiadau i wasanaethau nad ydynt yn dod o fewn un o'r tair set o achosion arbennig a ddisgrifir uchod yn golygu y bydd angen isafswm o 56 diwrnod o rybudd ar ôl y dyddiad pan fydd y Comisiynydd Traffig yn derbyn y cais.

Canllaw I Gofrestru Gwasanaethau Bws Lleol: Rhan 4

Swyddfeydd Ardaloedd Trafnidiaeth VOSA

Cyfeiriwch eich holl ohebiaeth at glerc y Comisiynydd Traffig.

Ardal Drafnidiaeth	Yn cynnwys ardal	Cyfeiriad
Gogledd Ddwyrain Lloegr	Y Bwrdeistrefi Metropolitan o fewn De Swydd Efrog, Tyne and Wear a Gorllewin Swydd Efrog. Siroedd Durham, Northumberland, Swydd Nottingham a Gogledd Swydd Efrog. Dosbarthiadau Darlington, East Riding Swydd Efrog, Hartlepool, Kingston upon Hull, Middlesbrough, Gogledd Swydd Lincoln, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln, Nottingham, Redcar a Cleveland, Stockton-on- Tees ac Efrog.	Hillcrest House 386 Harehills Lane Leeds LS9 6NF Ffon: 0300 123 9000 Ffacs: 0113 248 9607
Gogledd Orllewin Lloegr	Y Bwrdeistrefi Metropolitan o fewn Manceinion Fwyaf a Glannau Mersi. Siroedd Swydd Gaer, Cumbria, Swydd Derby a Sir Gaerhirfryn. Dosbarthiadau Blackburn with Darwen, Blackpool, Derby City, Halton a Warrington.	Hillcrest House 386 Harehills Lane Leeds LS9 6NF Ffon: 0300 123 9000 Ffacs: 0113 248 9607
Dwyrain Lloegr	Siroedd Bedford, Buckingham, Caergrawnt, Hertford, Essex, Swydd Gaerlyr, Lincoln (heblaw Dosbarthiadau Gogledd Swydd Lincoln a Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln), Norfolk, Northampton a Suffolk. Dosbarthiadau Caerlyr, Luton, Milton Keynes, Peterborough, Rutland, Southend-on – Sea a Thurrock.	Hillcrest House 386 Harehills Lane Leeds LS9 6NF Ffon: 0300 123 9000 Ffacs: 0113 248 9607
Gorllewin Canolbarth Lloegr	Y Bwrdeistrefi Metropolitan o fewn Gorllewin Canolbarth Lloegr. Siroedd Amwythig, Stafford, Warwick a Swydd Gaerwrangon. Dosbarthiadau Swydd Henffordd, Stoke-on- Trent a Telford a Wrekin.	Hillcrest House 386 Harehills Lane Leeds LS9 6NF Ffon: 0300 123 9000 Ffacs: 0113 248 9607

Ardal Drafnidiaeth	Yn cynnwys ardal	Cyfeiriad
Cymru	Cymru	Hillcrest House 386 Harehills Lane Leeds LS9 6NF Ffon: 0300 123 9000 Ffacs: 0113 248 9607
Gorllewin Lloegr	Siroedd Cernyw, Dyfnaint, Dorset, Swydd Gaerloyw, Hampshire, Rhydychen, Gwlad yr Haf a Wiltshire. Dosbarthiadau Caerfaddon, Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf, Bournemouth, Bracknell Forest, Bryste , Ynys Wyth, Gogledd Gwlad yr Haf, Plymouth, Poole, Portsmouth, Reading, Slough, Southampton, De Swydd Gaerloyw, Swindon, Torbay, Gorllewin Berkshire, Windsor a Maidenhead a Wokingham.	Hillcrest House 386 Harehills Lane Leeds LS9 6NF Ffon: 0300 123 9000 Ffacs: 0113 248 9607
De Ddwyrain Lloegr a Metropolitan	Llundain Fwyaf Siroedd Caint, Surrey, Dwyrain Sussex a Gorllewin Sussex. Dosbarthiadau Brighton and Hove, The Medway Towns.	Hillcrest House 386 Harehills Lane Leeds LS9 6NF Ffon: 0300 123 9000 Ffacs: 0113 248 9607
Yr Alban	Yr Alban	Hillcrest House 386 Harehills Lane Leeds LS9 6NF Ffon: 0300 123 9000 Ffacs: 0113 248 9607

CYFEIRIADAU DEFNYDDIOL ERAILL

VOSA Neu Adran PSV	Ellipse Heol Padley Abertawe, SA1 8AN	Ffon: 0300 123 9000 Ffon: 01792 454 234
Yr Adran Trafnidiaeth	Zone 3/13, Buses & Taxis Division Great Minster House 76 Marsham Street London SW1P 4 DR	Ffon: 020 7944 2275
Transport Tribunal	11th Floor, Cardinal Tower 11 Farringdon Road London, EC1M 3HS	Ffon: 020 7029 9780 Ffacs: 020 7029 9782

Uned Ymholiadau Gyrwyr	Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, Ffordd Longview, Abertawe SA6 7JL	Ffon: 0870 240 0009
Confederation of Passenger Transport	Imperial House, 15-19 Kingsway, London WC2B 6UN	Ffon: 020 7240 3131

Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr
Berkeley House
Croydon Street
Bristol BS5 0DA
Ffôn: 0300 123 9000
E-bost: enquiries@vosa.gov.uk
Gwasanaeth rhyngrwyd http://www.businesslink.gov.uk

Asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth

An executive agency of the Department for Transport